

Cymhorthydd Gweinyddol a Threfn – Lefel 2

Cyfeirnod y Swydd: YDEW00103W1RDE
Lleoliad: Ysgol Dewi Sant
Cyflog: Gradd 3 - (£9,439 - £9,820)
Oriau: 22.5 awr yr wythnos, Tymor Ysgol yn unig + 2 HMS
Math o gytundeb: Swydd Cyfnod Mamolaeth o 01/11/2019 -
Swydd Allanol

Rydym yn chwilio am Gynorthwydd Gweinyddol a Threfn sydd â sgiliau trefnu ardderchog. Bydd deilydd y swydd yn sicrhau gweinyddiaeth effeithlon drwy ddarparu gwasanaeth gweinyddol amrywiol yn yr ysgol i sicrhau gweinyddiaeth effeithlon.

Mae'n hanfodol fod gennych sgiliau Technoleg Gwybodaeth rhagorol a gwybodaeth sylfaenol am ddefnyddio systemau cyfrifiadurol. Bydd rhaid i ymgeiswyr fod â sgiliau rhyngersonol, cyfathrebu a threfnu ardderchog ac yn gallu cyrraedd targedau o dan bwysau ac yn unol ag amserlenni tynn. Mae'n hanfodol bwysig eich bod chi'n medru cynllunio, trefnu a blaenoriaethu eich llwyth gwaith eich hun.

Mae'n hanfodol bod yr ymgeisydd llwyddiannus yn medru cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg ar lafar ac yn ysgrifenedig ynghyd â dangos ymrwymiad amlwg tuag at weithio mewn ysgol cyfrwng Cymraeg.

Os hoffech chi drafod unrhyw agwedd o'r swydd dylai darpar-ymgeiswyr gysylltu â'r Pennaeth am sgwrs anffurfiol ar 01745 351355

Dyddiad Cau: Dydd Iau 12/09/2019

Os oes gennych ddi-ddordeb yn y swydd hon, gwnewch gais ar-lein trwy gwefan Sir Ddinbych www.sirddinbych.gov.uk/. Am ddulliau eraill o wneud cais, cysylltwch â Rhian Davies ar 01745 582611 neu drwy e-bost swyddi@ysgolglanclwyd.co.uk

Rhaid i ymgeiswyr gwblhau ein ffurflen gais i gael ei ystyried. Mae'n ddrwg gennym nad ydym yn gallu ateb pob cais. Os nad ydych wedi derbyn ateb o fewn tair wythnos l'r dyddiad cau, dylech gymryd yn ganiataol nad ydych wedi cyrraedd y rhestr fer am gyfweiliad.

This Advert is for an Administration Assistant at Ysgol Dewi Sant for which the ability to speak Welsh is an essential requirement

Mae Cyngor Sir Ddinbych yn ymroddedig i Gyfle Cyfartal a'i Safonau Iaith Gymraeg. Rydym yn croesawu ceisiadau yn y Gymraeg. Sylwch na fydd unrhyw ffurflenni cais a dderbynnir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na ffurflenni cais a gyflwynwyd yn Saesneg.